

Briff Ymchwil Hysbysiad hwylus ar gyllid addysg ôl-16

Awdur: **Joseph Champion**

Dyddiad: **Ebrill 2018**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Joseph Champion**

Dyddiad: **Ebrill 2018**

Rhif Papur: **18-028**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

 : 0300 200 7390

 : Joseph.Champion@Cynulliad.Cymru

 : seneddymchwil.blog

 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil
**Hysbysiad hwylus ar gyllid
addysg ôl-16**



Cynnwys

1. Trosolwg	1
Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16.....	1
Fframwaith Cynllunio ac Ariannu Ôl-16.....	1
2. Methodoleg neilltuo	2
Cytundebau Cyllideb	3
Dim cymedroli cyllid ar gyfer cyfraddau cwblhau	4
3. Dyraniadau	4
4. Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol	7
Blaenoriaethau blynyddol	7
Diwygio'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (PCET)	7
Adolygu systemau ar gyfer monitro a gwella effeithiolrwydd addysg ôl-orfodol yng Nghymru	8

1. Trosolwg

Caiff sefydliadau addysg bellach (SABau) a chweched dosbarth mewn ysgolion eu **cyllido mewn ffyrdd gwahanol**:

- Mae'r SABau yn derbyn eu dyraniad cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gylch blwyddyn academaidd; a
- Dyrennir cyllid ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, bob blwyddyn ariannol, sydd yna'n trosglwyddo'r cyllid hwnnw i ddosbarthiadau chweched dosbarth unigol.

Gall awdurdod lleol gadw hyd at 3 y cant (PDF46KB) o gyfanswm ei ddyraniad ar gyfer gwasanaethau a gedwir yn ganolog sy'n ymwneud ag addysg ôl-16.

Mae'n bwysig nodi bod **darpariaeth cyllid chweched dosbarth ôl-16 ar wahân i'r cyllid ysgol cyn 16 oed**, sy'n cael ei ddarparu'n bennaf i awdurdodau lleol drwy **Grant Cynnal Refeniw Setliad Llywodraeth Leol**, sydd heb ei neilltuo.

Ers 2015–16 (ariannol) a 2015/16 (academaidd), mae dyraniadau cyllid ar gyfer SABau a chweched dosbarth wedi'u pennu o dan y **Fframwaith Cynllunio ac Ariannu ôl-16 newydd**, a ddisodlodd yr heb System Gynllunio ac Ariannu Cenedlaethol (NPFS) blaenorol, o ganlyniad i'r **Adolygiad Cynllunio ac Ariannu ôl-16**.

Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16

Ym mis Chwefror 2011, cyhoeddodd Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, ei fod yn neilltuo'r NPFS ac y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal **adolygiad trylwyr o gynllunio ac ariannu ôl-16**.

Daeth yr adolygiad, a adroddodd ym mis Mai 2013, i'r casgliad

y bydd y system newydd yn canolbwyntio ar gynllunio a monitro yn hytrach na chael ei llywio gan gyllid.

Roedd yr hen NPFS yn system ariannu cystadleuol ac wedi'i gynllunio i roi pwyslais ar gyfaint y dysgu a ddarperir. Roedd darparwyr yn derbyn cyllid yn seiliedig ar gyrhaeddiad cymhwyster yn hytrach na chynnydd y dysgwyr. Oherwydd yr adolygiad, **rhaglenni dysgu, yn hytrach na chymwysterau unigol, yw craidd y system newydd**.

Fframwaith Cynllunio ac Ariannu Ôl-16

Mae'r **Fframwaith Cynllunio ac Ariannu Ôl-16** wedi'i gynllunio i **ganolbwyntio mwy ar y dysgwr yn dilyn cyfres o gymwysterau** a dysgu sy'n addas i'w rhaglen o astudiaethau, yn hytrach na chymell darparwyr i annog dysgwyr i ddilyn cymwysterau nad ydynt o bosibl yn addas i'w rhaglen.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ganllaw cyhoeddedig ar y fframwaith newydd** ym mis Hydref 2013 a oedd yn nodi:

Prif nod y fframwaith newydd yw llacio'r cyswllt uniongyrchol rhwng gweithgareddau cyllido a dysgu a rhoi pwyslais ar ansawdd y dysgu sy'n cael ei gynneg o ran y deilliannau i ddysgwyr unigol. Rhaglenni yn hytrach na chymwysterau sydd wrth wraidd y fframwaith cyllido a chynllunio newydd; a bydd i bob rhaglen burpas a chanlyniad pendant a fydd yn sail i'r gwaith o'i monitro.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **manylion am y rhaglenni sy'n gymwys** i gael cyllid.

Mae'r fframwaith cyllido newydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- parhau â dyraniadau cyllido dangosol tair blynedd er mwyn rhoi sefydlogrwydd a chynorthwyo â chynllunio

- parhau â'r drefn o roi cyllid ychwanegol (ymgodiad) yng nghyswllt amddifadedd, ardaloedd tenau eu poblogaeth a darpariaeth iaith Gymraeg. Bydd hwn yn swm a gaiff ei neilltuo o fewn y dyraniad grant cyffredinol.

- safoni'r dull gweithredu yng nghyswllt cynllunio a chyllido rhwng ALLau a SABau

- monitro deilliannau'r dysgu a gynigir i roi gwell dealltwriaeth i ddysgwyr o'r cyfleoedd y gallai'r dysgu hwnnw eu rhoi iddynt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **diagram yn nodi chwe cham** (53KB) y cylch cynllunio a chyllido newydd.

2. Methodoleg neilltuo

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori bod dyraniadau chweched dosbarth awdurdodau lleol yn cael eu pennu drwy'r broses a ganlyn

Cam 1: Mae nifer y dysgwyr chweched dosbarth a ragwelir ar gyfer seilio dyraniadau ar gyfer y tair blynedd nesaf wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r niferoedd hysbys o ddysgwyr sy'n dod drwy bob grŵp blwyddyn. Gan ddefnyddio'r niferoedd dysgwyr hyn, cyfrifir 'cyfradd dychwelyd i'r ysgol cyfartalog'. Felly, er mwyn rhagfynegi niferoedd 2015, cafodd 'cyfradd dychwelyd i'r ysgol cyfartalog' ei chymhwyso i ddysgwyr blwyddyn 11, ar gyfer 2016 cafodd ei chymhwyso i ddysgwyr blwyddyn 10 presennol, ac ar gyfer 2017 cafodd ei chymhwyso i ddysgwyr blwyddyn 9, ac yn y blaen. Caiff y rhagfynegiadau eu diweddarau bob blwyddyn wrth i'r data diweddaraf gael eu cyhoeddi.

Cam 2: Pennir cyfartaledd gwerth cyllido yn flynyddol am bob dysgur ar gyfer pob Awdurdod Lleol drwy gyfrifo canran y rhaglenni a gyflwynir ar werth pob rhaglen a chymryd cyfartaledd y canrannau hyn.

Cam 3: Cyfrifwyd dyraniadau drwy luosi'r niferoedd dysgwyr a bennwyd yng ngham 1 â'r cyfartaledd gwerth cyllido am bob dysgur o gam 2.

Cam 4: Ychwanegwyd codiadau am amddifadedd, teneurwydd poblogaeth a chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg i bennu cyfanswm y dyraniadau dangosol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori y bydd y dyraniadau ar gyfer addysg bellach yn cael eu pennu gyda'r gyllideb sy'n weddill ar ôl i'r dyraniadau ar gyfer darpariaeth addysg chweched dosbarth gan awdurdodau lleol gael eu pennu. Gan ddibynnu ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn benodol honno, gallai hyn fod yn gynydd yn ôl chwyddiant ar y dyraniad a wnaethpwyd yn y flwyddyn flaenorol neu'n galw am effeithlonrwydd o'i gymharu â'r dyraniad ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Pan fo cynnydd yn ôl chwyddiant yn cael ei roi i'r sector addysg bellach, bydd hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y dyraniad terfynol ar gyfer addysg chweched dosbarth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi adrodd bod y gostyngiadau yn y gyllideb ôl-16 yn 2014/15 a 2015/16 wedi arwain at benderfyniad nad oedd gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb ar gyfer yr holl ddysgwyr yn briodol. Yn lle hynny, cafodd cyllid ar gyfer addysg ran-amser ei ostwng ar draul gostwng y cyfraddau cyllido ar gyfer dysgwyr 16-19 oed. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 37.5 y cant mewn darpariaeth ran-amser yn 2014/15 a gostyngiad arall o 50 y cant yn 2015/16. Roedd effaith hyn ar golegau yn amrywio yn dibynnu ar eu proffil o ran dysgwyr rhan-amser.

Mae [llythyr Cyllido Addysg Bellach 2014 i 2015](#) (PDF 110KB) yn egluro, ar gyfer dyraniadau SAB

Defnyddiwyd data LLWR 2012/13 i ganfod y gyfran o gyflwyno llawn-amser a rhan-amser ym mhob sefydliad (Defnyddir procsi o fwy na 450 o oriau cyswllt dan arweiniad fesul dysgwr i dybio darpariaeth llawn-amser a llai na 450 o oriau cyswllt dan arweiniad fesul dysgwr i dybio darpariaeth ran-amser). Mae Atodiad B i'r llythyr hwn yn dangos cyfran y ddarpariaeth llawn-amser a rhan-amser ar gyfer eich sefydliad.

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru [adroddiad Trosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau addysg bellach](#). Wrth sôn am yr adroddiad, [dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru](#)

Er bod colegau addysg bellach wedi llwyddo i ymdopi â'r toriadau yn eu cyllid dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n amlwg bod eu cyllid dan straen gynyddol ac y gallent ei chael yn anodd cynnal swm A sylwedd y ddarpariaeth ar y lefelau presennol. Mae ar y sector angen cyfarwyddyd clir ynglŷn â'i le yn y cyd-destun polisi ehangach ar gyfer addysg ôl-16. Hefyd, mae angen i'r trefniadau cyllido adlewyrchu'n well y newidiadau lleol mewn angen.

Cytundebau Cyllideb

Ar wahân i ddull dyrannu Llywodraeth Cymru, mae'r sector addysg bellach wedi cael budd o gyllid ychwanegol o ganlyniad i'r trefniadau cyllideb y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

Ym [mis Hydref 2016](#), [cytunwyd](#) y byddai Llywodraeth Cymru yn dyrannu £30 miliwn ychwanegol ar gyfer addysg uwch (AU), addysg bellach (AB) a llwybrau dysgu. [Cafodd £5 miliwn o'r arian hwn ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r sector AB](#). Yn ei [phapur i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) fel rhan o waith craffu ar y gyllideb ddrafft 2017-18, nododd Llywodraeth Cymru mai bwriad yr arian hwn yw

lliniaru'r pwysau ym meysydd Addysg Bellach ac Addysg Uwch, i wella cydweithio a chysylltiadau strategol rhwng AU ac AB ac i ddechrau gweithredu ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond

O ran AB, roedd y cyllid yn benodol ar gyfer **lliniaru'r pwysau cyflog a phwysau cysylltiedig** a wynebir gan y sector.

Cytunwyd ar **fargen cyllideb dwy flynedd arall** rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ym mis Hydref 2017. Roedd hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer **£20 miliwn ychwanegol y flwyddyn ar gyfer AU ac AB**. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, fel rhan o'i **thystiolaeth lafar ar gyllideb 2018-19**, y bydd y £20 miliwn yn cael ei ddyrannu yn yr un ffordd â'r llynedd, **h.y. £15 miliwn ar gyfer AU a £5 miliwn ar gyfer AB**.

Mae **cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19**, fel y'i cyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2017, yn cynnwys **£2.5 miliwn yn 2018-19** a £4.2 miliwn ychwanegol yn 2019-20 ar gyfer llinell wariant yn y gyllideb (BEL) Darpariaeth Addysg Bellach i gefnogi rhaglenni ac ymyriadau wedi'u hanelu at wella sgiliau.

Dim cymedroli cyllid ar gyfer cyfraddau cwblhau

Nid yw'r Fframwaith Cynllunio ac Ariannu ôl-16 yn **cymedroli cyllid ar gyfer rhaglenni o fewn coleg neu chweched dosbarth** ar sail nifer y myfyrwyr sy'n gadael neu sy'n cwblhau'r rhaglen. Mae adroddiad terfynol y cyllid ôl-16 yn egluro:

Ni ragwelir y bydd pob dysgwr sy'n dechrau rhaglen ddysgu yn ei dilyn hyd y diwedd a'i chwblhau'n llwyddiannus. Gwnaeth y SGAG gymedroli cyllid ar sail dysgwr unigol a arweiniodd at broses gymhleth o fonitro darpariaeth yn erbyn targedau. Yn lle hynny ceir gwerth y rhaglen gan gofio am ddysgwyr sy'n gadael rhaglenni neu'n eu cwblhau'n gynnar. Golyga'r dull hwn o weithredu fod darparwr bob amser yn gwybod pa garfan o ddysgwyr a fydd yn hawlio arian heb ystyried pryd/os bydd dysgwr yn gadael rhaglenni neu'n eu cwblhau'n gynnar.

3. Dyraniadau

Mae gwybodaeth am y **dyraniadau penodol i SABau ac i awdurdodau lleol ar gyfer eu darpariaeth chweched dosbarth** ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, mae'r **dogfennau diweddaraf sydd ar gael yn perthyn i flwyddyn ariannol 2015-16** ar gyfer awdurdodau lleol a blwyddyn 2015/16 ar gyfer sefydliadau addysg bellach.

Darparodd Llywodraeth Cymru y dyraniadau diweddaraf ar gyfer 2016/17 a 2016-17 a 2017/18 a 2017-18 ar gais. Gan ddefnyddio'r data hwn, a'r data sydd ar gael ar-lein, lluniwyd y tablau canlynol.

Cyllid Sefydliadau Addysg Bellach ar gyfer blynyddoedd academiaidd 2014/15 i 2017/18

Mae'r tabl canlynol yn amlygu'r dyraniadau ar gyfer sefydliadau unigol ers 2014/15.

Sefydliad Addysg Bellach	Dyraniadau (£oedd)			
	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Coleg Pen-y-bont	16,467,956	15,109,716	15,522,486	15,716,517
Coleg Sir Gâr	15,703,876	14,879,585	15,249,735	15,440,357
Coleg Ceredigion	3,862,066	3,754,651	3,860,005	3,908,255
Coleg Cambria	37,775,398	34,973,779	36,572,176	37,029,328
Coleg Caerdydd a'r Fro	27,703,856	26,808,597	27,473,008	27,731,421
Coleg Gwent	40,083,535	37,925,382	39,084,226	39,572,779
Coleg Merthyr Tudful	8,787,600	8,332,001	7,952,689	8,052,098
Coleg Sir Benfro	10,320,160	9,513,667	9,704,973	10,109,385
Coleg y Cymoedd	29,903,403	27,445,282	28,741,701	29,100,972
Coleg Catholig Dewi Sant	5,175,922	5,041,348	5,091,655	5,155,301
Coleg Gŵyr Abertawe	23,907,206	22,432,845	22,886,729	23,172,813
Grŵp NPTC Group	25,809,514	24,126,832	24,593,326	24,900,743
Grŵp Llandrillo Menai	41,630,096	39,439,803	40,419,681	40,924,927
YMCA	913,222	889,478		
WEA Cymru	4,534,488	4,416,591		
WEA YMCA			5,499,379	
Addysg Oedolion Cymru				5,568,121
Cyfanswm	292,578,297	275,089,558	282,651,770	286,383,018

Ffynhonnell: [Llywodraeth Cymru Atodiad A - Llythyr Dyraniadau AB 2015-16](#) a gwybodaeth a ddarparwyd i'r Gwasanaeth Ymchwil gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017.

Noder: Unodd Coleg Cymunedol YMCA ac WEA Cymru yn 2015 a chafodd ei ail-enwi yn Addysg Oedolion Cymru ar 5 Tachwedd 2016.

Mewn [papur i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) cyn ei waith craffu ar y gyllideb ddrafft ar 16 Tachwedd 2017, amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y canlynol mewn perthynas â SABau:

- **bu gostyngiad o £23.665 miliwn ar gyfer y sector** rhwng 2013/14 a 2017/18, sef gostyngiad o 7.63 y cant yn nhermau arian parod;
- mae cyllid ar gyfer **darpariaeth ran amser wedi gostwng bron 70 y cant** mewn termau real ers 2013/14, gan adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu ei chyllid i gefnogi ysgolion a phobl ifanc;
- **mae darpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed wedi'i diogelu** o fewn y dyraniadau ar gyfer SABau; ac
- mae dyraniadau ar gyfer SABau ar gyfer 2016/17 a 2017/18 yn cynnwys **dyraniadau untro o £796,000** i adlewyrchu'r twf mewn darpariaeth lefel 3 (Safon Uwch) ar gyfer dysgwyr 16-19 oed.

Dyraniadau chweched dosbarth awdurdod lleol rhwng blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2017-18

Mae'r tabl canlynol yn amlygu'r dyraniadau ar gyfer awdurdodau lleol ers 2014-15.

Chweched Dosbarth Awdurdod Lleol	Dyraniadau (£oedd)			
	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
Ynys Môn	2,710,769	2,710,769	2,554,313	2,522,524
Gwynedd	3,027,083	3,147,753	3,256,673	3,386,897
Conwy	4,754,394	4,779,263	4,654,586	4,647,612
Sir Ddinbych	4,050,921	3,978,526	3,731,730	3,957,923
Sir y Fflint	5,935,454	5,786,420	5,011,629	4,756,182
Wrecsam	1,587,725	1,453,851	1,366,215	1,338,194
Powys	5,881,996	5,545,850	5,097,666	4,911,215
Ceredigion	3,731,657	3,699,002	3,735,025	3,607,911
Sir Benfro	5,019,237	4,909,952	4,547,350	3,898,036
Sir Gâr	6,457,240	6,191,760	6,184,366	5,920,508
Abertawe	5,656,665	5,542,985	5,520,493	5,748,745
Castell-nedd Port Talbot	1,342,464	1,410,417	1,341,011	1,376,279
Pen-y-bont ar Ogwr	6,307,160	6,501,858	6,330,584	6,291,012
Bro Morgannwg	6,780,646	6,587,394	6,406,391	6,060,309
Rhondda Cynon Taf	12,228,633	11,360,683	10,610,490	10,326,149
Merthyr Tudful	405,766	0	0	0
Sir Caerffili	5,308,457	4,793,308	4,713,584	4,418,241
Blaenau Gwent	0	0	0	0
Sir Torfaen	4,226,539	3,803,147	3,514,411	3,332,528
Sir Fynwy	3,500,584	3,265,993	3,263,670	3,002,305
Casnewydd	7,732,362	7,632,304	7,631,436	6,797,220
Caerdydd	11,653,710	11,538,083	11,602,576	12,287,141
Cyfanswm	108,299,462	104,544,290	101,074,201	98,586,932

Ffynhonnell: Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru Atodiad A - Llythyr Dyraniadau ALI 2015-16 a gwybodaeth a ddarparwyd i'r Gwasanaeth Ymchwil gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017.

Noder: Mae rhai awdurdodau lleol wedi uno pob un o'u chweched dosbarth i'w SAB, gan olygu nad oes dyraniad chweched dosbarth yn yr awdurdodau hynny.

Mae cyllideb 2019-20 dangosol Llywodraeth Cymru¹ yn amlygu bod **cyllideb addysg ôl-16² gyffredinol yn gostwng £9.827 miliwn**, drwy ostyngiad i gyllideb chweched dosbarth ysgolion 'fel rhan o'r broses o resymoli grantiau llywodraeth leol'. Dywed Llywodraeth Cymru

Byddwn yn cydweithio'n agos â phob sector i sicrhau bod unrhyw ostyngiadau yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar y dewisiadau a gynigir; ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Papur Gwyntyllu ar yr opsiynau posibl ar gyfer gwella perfformiad ac effeithlonrwydd dosbarthiadau chwech yng Nghymru. Canfu'r papur, ymysg pethau eraill:

¹ Fel y gwelir yn y papur i Bwyllgor CYPE fel rhan o'r broses o graffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19.

² Syn cynnwys cyllid ar gyfer chweched dosbarth awdurdodau lleol, Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL), a Sefydliadau Addysg Bellach (SABau).

Nid oedd ansawdd, deilliannau, effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd darpariaeth wedi'u gwerthuso'n ddigonol...

Mae cysylltiad cryf rhwng risg uwch o groes-gymhorthdal o weddill y gyllideb ysgol a chynnal dosbarthiadau chwech bach. Mae angen cynnal asesiad pellach o effaith lleihau'r adnoddau a ddyrennir i ddisgyblion ysgol iau o dan yr amgylchiadau hyn, yn ogystal â dichonoldeb y dull hwn yn yr hirdymor.

4. Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol

Blaenoriaethau blynyddol

Ym mis Tachwedd bob blwyddyn, **mae awdurdodau lleol a SABau yn cyflwyno cynlluniau cyflawni dros dro** i Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn gyflawni ganlynol. Ynghyd â'u cynlluniau cyflawni dros dro, mae angen iddynt hefyd gyflwyno **ymateb i flaenoriaethau gweinidogol**.

Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg **ei blaenoriaethau ar gyfer chweched dosbarth a'r sector addysg bellach yn 2017/18**, ym mis Rhagfyr 2016, sef:

- cyrraedd y Safonau Rhyngwladol a rhagori arnynt;
- hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch;
- cefnogi swyddi a thwf;
- cynnal cynaliadwyedd ariannol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl i'r ddau sector **barhau i gydweithio** ac i sicrhau bod eu myfyrwyr yn **'aelodau crwn, rhagweithiol a chynhyrchiol o'u cymunedau'**. Mae ei llythyrau i'r ddau sector yn cynnwys canllawiau ar sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r blaenoriaethau gael eu cyflawni.

Diwygio'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (PCET)

Mae **dyfodol y ddau sector yn debygol o gael eu heffeithio'n fawr** gan fwiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (PCET). Mae'r diwygiadau yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Athro Hazelkorn, a gyhoeddwyd yn adroddiad **Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru**, ym mis Mawrth 2016. Un o **nodau'r adolygiad yw mynd i'r afael â**

chymhlethdod cynyddol y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Mae hyn yn cynnwys addysg bellach, addysg uwch, dysgu sy'n seiliedig ar waith a'r addysg i oedolion yn y gymuned.

O ganlyniad i argymhellion yr Athro Hazelkorn, mae **Llywodraeth Cymru yn cynnig sefydlu Comisiwn Addysg ac Ymchwil Trydyddol i Gymru** (y Comisiwn). Bwriad y Comisiwn yw **darparu gwaith goruchwyllo, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth** ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Fel y trafodwyd yn ein herthygl a gyhoeddwyd ar flog y Gwasanaeth Ymchwil ar XXXXXX, nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto p'un a ddylid cynnwys chweched dosbarth yng nghylch gwaith y Comisiwn.

Gan ymateb i'r **ymgyngoriad cychwynnol ar y cynigion** i ddiwygio'r sector PCET **yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Rhagfyr 2017**, nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod y cynigion wedi cael cefnogaeth eang ac y gallai gweithredu'r cynigion hynny arwain at

y darn mwyaf oll o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol erioed wedi gorfod ymdrin ag ef... Ond fy murriad pendant i a'm gobaith yw y gallwn gyrraedd y diwedd cyn tymor y Cynulliad.

Disgwylir ymgynghori technegol ar y cynigion yn gynnar yn 2018.

Adolygu systemau ar gyfer monitro a gwella effeithiolrwydd addysg ôl-orfodol yng Nghymru

Ar 29 Medi 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg **benodiad yr Athro Harvey Weingarten** i gynnal adolygiad o systemau ar gyfer monitro a gwella effeithiolrwydd addysg ôl-orfodol yng Nghymru. Mae cylch gorchwyl yr Adolygiad yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, i

- ystyried sut mae gweithgareddau a pherfformiad y sector addysg ôl-orfodol yn cael eu monitro a'u gwerthuso gan Lywodraeth Cymru a'i hasiantaethau;
- ystyried effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer monitro addysg ôl-orfodol yng Nghymru drwy eu cymharu â threfniadau gwledydd eraill y DU, cymaryddion rhyngwladol perthnasol a thystiolaeth o waith ymchwil; ac
- ystyried a oes angen deddfwriaeth neu drefniadau sefydliadol newydd neu ddiwygiedig er mwyn gweithredu'r trefniadau a gynigir ar gyfer y dyfodol o ganlyniad i'r adolygiad hwn.

Disgwylir i ganlyniadau **yr Adolygiad gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2018** a bydd yn bwydo i mewn i'r rhaglen diwygio PCET ehangach.